

**LISTEN
ENGAGE
REPRESENT**



PROFFIL RÔL

Teitl y swydd	Cydlynnydd Cenedlaethol Datblygu Talent- Sbrintio, Clwydi a Rasys Cyfnewid.
Adrodd i	Yr Hyfforddwr Cenedlaethol
Yn gyfrifol am	Y Cydlynwyr Rhanbarthol
Lleoliad	Caerdydd - Canolfan Athletau Dan Do Genedlaethol / Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
Patrwm gweithio	Llawn amser (37 awr/wythnos) Mae angen bod yn hyblyg iawn gan y bydd yr wythnos 37 awr yn cynnwys gweithio a theithio dros benwythnosau a gyda'r nos.
Pwrpas y rôl	Arweinydd Strategol Sbrintio, Clwydi a Rasys Cyfnewid - gweithio'n rhagweithiol i ddarparu a chydlynu llwybr datblygu strwythuredig i Athletwyr a Hyfforddwyr Sbrintio, Clwydi a Rasys Cyfnewid ledled Cymru. <i>[Sylwer nad rôl hyfforddi broffesiynol yw hon.]</i>
Cyllidebau	I'w cadarnhau.
Cydgysylltiadau allweddol	Athletau Cymru Rheolwr Rhaglen, Hyfforddwr Cenedlaethol, Rheolwr Datblygu Hyfforddwyr Athletau Cymru, Athletau Cymru Pennaeth Datblygu a Chyfranogiad, Ffederasiynau Athletau Gwledydd Prydain, Chwaraeon Anabledd Cymru, Chwaraeon Cymru, British Athletics

Yn dilyn llwyddiant yng Ngemau'r Gymanwlad 2018 rydym yn chwilio am unigolyn sydd â dealltwriaeth drylwyr o Athletau ac sy'n awyddus i fod yn gyfrifol am ysgogi ein rhaglenni datblygu talent ledled Cymru yn unol â Gwerthoedd Strategol y sefydliad.

Mae Athletau Cymru yn rhoi blaenoriaeth i fuddsoddiad mewn cymunedau hyfforddi, y mwyafrif ohonynt yn wirfoddolwyr. Er mwyn llwyddo yn y rôl hon mae angen y sgiliau a'r ddealltwriaeth i gefnogi'r gwirfoddolwyr gwerthfawr hyn.

Mae hwn yn gyfle cyffrous mewn rôl fydd yn cael ei hintegreiddio'n llawn i dîm Perfformiad Athletau Cymru gyda Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 ar y gorwel. Y gobaith yw sefydlu'r rôl er mwyn cefnogi datblygiad hyfforddwr ac athletwr yn nwy gylchred nesaf Gemau'r Gymanwlad.

Cyfrifoldebau allweddol

Cefnogi a Datblygu Hyfforddwr

- Arsylwi a bod mewn cysylltiad rheolaidd ag ymarferion hyfforddi yn y gymuned. Rhoi sesiynau mentora i hyfforddwr er mwyn sicrhau bod safonau hyfforddi cyffredinol athletau yng Nghymru yn gwella'n barhaus. Ar y cyd â'r Rheolwr Datblygu Hyfforddwr, cyflwyno a monitro rhaglen DPP i hyfforddwr ledled Cymru (dysgu ffurfiol ac anffurfiol),
- Bod yn brif bwynt cyswllt i hyfforddwr sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid yng Nghymru, gan ddatblygu a darparu strategaeth gysylltu i sicrhau bod proses gyfathrebu reolaidd, agored, ddwyffordd yn cael ei defnyddio gyda'r holl hyfforddwr,
- Dod o hyd i hyfforddwr a'u cefnogi i fod yn rhan o Lwybr Datblygu Hyfforddwr Athletau Cymru - bydd y rhestr hon yn cael ei hadolygu bob chwarter gyda'r Rheolwr Datblygu Hyfforddwr a Rheolwr y Rhaglen. Bydd pob hyfforddwr yn cael dadansoddiad o anghenion hyfforddi bob blwyddyn, yn ogystal â chynllun datblygu i gefnogi'r anghenion a nodwyd.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi cyflwyniad Hybiau Rhanbarthol ar gyfer Sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid gyda hyfforddwr perthnasol o fewn cyllideb benodol.
- Gweithio gyda hyfforddwr i edrych ar gyfleoedd i drosglwyddo talent ar draws cystadlaethau er mwyn cynyddu'r potensial i lwyddo ar lefel ryngwladol - adolygu'r strategaeth drosglwyddo talent bob chwe mis gyda Rheolwr y Rhaglen.
- Recriwtio, datblygu a rheoli dau hyfforddwr cynorthwyol a fydd yn gweithio'n wirfoddol i gefnogi Strategaeth y Grŵp Cystadleuaeth ac yn elwa o becyn DPP uwch fel cydnabyddiaeth.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda'r tîm Perfformiad i greu a datblygu'r offer tracio athletwr a hyfforddwr.

Cefnogi a Datblygu Athletwr

- Bod yn gyfrifol am olrhain, dadansoddi, ac adrodd ar berfformiad a datblygiad yr holl athletwr sbrint, clwydi a ras gyfnewid a gefnogir.
- Bod yn gyfrifol am drefnu a darparu'r rhaglen Genedlaethol a Rhanbarthol ar gyfer Sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid fel sy'n briodol. Rheoli'r amrywiol gydlynwyr wrth roi cefnogaeth a chyfleoedd datblygu, a hynny o fewn cyllidebau y cytunir arnynt.
- Cysylltu â'r Rheolwr Rhaglen i sicrhau bod digon o gefnogaeth gwyddor chwaraeon briodol ar waith er mwyn gynyddu cyfleoedd perfformiad yr athletwr wrth iddynt ddatblygu ar hyd y Lwybr Talent.
- Bod yn gyfrifol am drefnu gwerysilloedd Hyfforddiant Cenedlaethol perthnasol yn y wlad hon a thramor o fewn cyllidebau penodol.
- Cyfrannu at benderfyniadau cyllido blynyddol y Rhaglen Cefnogaeth Athletwr

- Cyfrannu fel rhan o'r tîm Perfformiad at y gwaith o ddatblygu a gweithredu mentrau newydd. Gall hyn gynnwys datblygu darpariaeth / cefnogaeth cwricwlwm a hyfforddi gweithredol yn ôl yr angen.

Datblygu Cystadleuaeth

- Datblygu a Rheoli Grŵp Strategaeth sy'n cyfarfod o leiaf bob chwarter i adolygu a chynorthwyo gyda chynllun gweithredol strategol y Grŵp Cystadleuaeth.
- Darparu cynllun gweithredol ar gyfer y Grŵp Cystadleuaeth sy'n canolbwyntio ar y gweithgareddau allweddol, y gefnogaeth a'r gyllideb ofynnol.
- Darparu Gwybodaeth bob mis am Broffilio / Rheoli er mwyn diweddarau'r Hyfforddwr Cenedlaethol, Rheolwr y Rhaglen ac Arweinydd y Grŵp Strategaeth (Aelod o Fwrdd Athletau Cymru)
- Mynychu a chysylltu â'r pwyllgor Trac a Maes fel sy'n briodol ynglŷn â phob menter a chystadleuaeth sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid domestig gan gynnwys Pencampwriaethau Cenedlaethol
- Cefnogi cyfathrebu rhwng Athletau Cymru a'r gymuned athletau yng Nghymru,
- Sicrhau bod rhaglen gystadlu ddomestig pob maes disgyblaeth yn cyd-fynd â'r amcanion strategol ar gyfer sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid ledled Cymru.
- Gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Athletau Cymru a Chymdeithas Athletau Ysgolion Cymru i sicrhau bod y rhaglenni perthnasol yn cyd-fynd.

Cystadlaethau Rhyngwladol

- Gweithio gyda'r Hyfforddwr Cenedlaethol, Rheolwr y Rhaglen a'r pwyllgor y ddisgyblaeth berthnasol i sicrhau bod rhaglen gystadlu rhyngwladol addas a heriol yn cael ei threfnu bob blwyddyn
- Gweithio gyda Rheolwr y Rhaglen i sicrhau bod cytundeb ar yr holl bolisiau dethol, eu bod yn gyson ac yn cael eu cyfleu'n effeithiol.
- Lle bo'n briodol, bod yn aelod o'r panel yng nghyfarfodydd y panel dethol rhyngwladol ar gyfer rhaglenni rhyngwladol.
- Gweithredu fel Arweinydd Tîm / Staff Tîm ar gyfer rhaglenni rhyngwladol yn ôl yr angen.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

- Fel rhan o'r broses Adolygu Flynyddol bydd pob unigolyn yn adolygu ei sgiliau ac yn chwilio am gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) priodol.

Dyletswyddau Gweithredol

- Mynychu a chynrychioli Athletau Cymru mewn cyfarfodydd rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol yn ôl y gofyn.
- Darparu gwybodaeth / adroddiadau yn ôl yr angen i gefnogi'r system adroddiadau gweithredol, adroddiadau cyllidebol ac adroddiadau er budd y Bwrdd.

Bydd llwyddiant yn y rôl hon ei fesur yn erbyn cyfres o amcanion CAMPUS y cytunir arnynt wrth gychwyn y rôl.

Addysg, Sgiliau a Phrofiad

	Hanfodol	Manteisiol
Profiad o reoli gwirfoddolwyr	✓	
Cymhwyster Hyfforddi dilys y Deyrnas Unedig - Isafswm Lefel 2 / Hyfforddwr Athletau (neu gyfwerth)	✓	
Y gallu i ffurfio perthynas lwyddiannus gyda hyfforddwyr, darparwyr gwasanaethau, staff a gwirfoddolwyr allweddol ledled Cymru a Phrydain	✓	
Profiad blaenorol o gefnogi datblygiad hyfforddwyr ac athletwyr	✓	
Dealltwriaeth drylwyr o Athletau, yn enwedig disgyblaethau sbrintio, clwydi a rasys cyfnewid o lefel datblygu i lefel perfformiad	✓	
Y gallu i gyfathrebu a chyflwyno gwybodaeth yn effeithiol i ystod eang o bobl, gan gynnwys athletwyr, hyfforddwyr, darparwyr gwasanaethau a gwirfoddolwyr	✓	
Gallu datrys problemau a meddwl yn greadigol	✓	
Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun	✓	
Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain	✓	
Gallu gweithio ar gyflawni mwy nag un dasg ar y tro a gweithio'n hyblyg ar draws gwahanol brosiectau	✓	
Y gallu i ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	✓	
Gallu teithio ledled Cymru (gyda'r nos ac ar benwythnosau), Prydain a thramor yn ôl y gofyn	✓	
Sgiliau TG da a dealltwriaeth ymarferol o feddalwedd MS Office.	✓	
Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol	✓	
Dealltwriaeth a phrofiad o gynllunio a chyflwyno addysg anffurfiol / ffurfiol yn llwyddiannus	✓	
Dealltwriaeth o'r amgylchedd uchel ei berfformiad, gan gynnwys hyfforddi, gwyddor chwaraeon a meddygaeth, cystadlaethau rhyngwladol a llwybrau datblygu		✓
Dealltwriaeth dda o ffisioleg a chryfder a chyflyru		✓
Sgiliau rhagorol o ran rheoli prosiectau, rheoli amser, cynllunio a pharatoi adroddiadau	✓	

*Nid yw'r proffil rôl hwn yn un cyflawn. Fe'i bwriedir fel dynodiad amlinellol o'r meysydd gwaith a bydd yn cael ei drafod gyda chi a'i ddiwygio dros amser yng ngoleuni anghenion newidiol y cwmni.

Pecyn Buddion

Cyflog	£28k - £32k y flwyddyn, cyfwerth ag amser llawn
Cyfnod	Parhaol
Gwyliau	25 diwrnod â thâl yn ogystal ag 8 gwyl y banc â thâl.
Oriau	Llawn Amser - 37 awr yr wythnos
Buddion eraill	Cynllun Pensiwn y Cwmni (cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 6%) Parcio am ddim ar y safle yn ein swyddfeydd (NIAC, CISC, POD) Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa wedi'u hariannu
Cyfnod rhybudd	3 mis
